**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | P M Matthews |
| M Bailey | P R Hood-Williams | J D McGettrick |
| M Baker | B Hopkins | F D O'Brien |
| S Bennett | D H Hopkins | A J O'Connor |
| P N Bentu | L James | C L Philpott |
| A Davis | O G James | J E Pritchard |
| A M Day | A J Jeffery | S Pritchard |
| P Downing | D H Jenkins | A Pugh |
| C R Doyle | J W Jones | S J Rice |
| M Durke | L R Jones | K M Roberts |
| C R Evans | M H Jones | B J Rowlands |
| C M J Evans | M Jones | R V Smith |
| E W Fitzgerald | S M Jones | A H Stevens |
| R Fogarty | S Joy | L G Thomas |
| R Francis-Davies | E J King | W G Thomas |
| N Furlong | E T Kirchner | M S Tribe |
| F M Gordon | A S Lewis | G D Walker |
| K M Griffiths | M B Lewis | L V Walton |
| H J Gwilliam | R D Lewis | T M White |
| J A Hale | W G Lewis | R A Williams |
| T J Hennegan | M W Locke | |
| V A Holland | N L Matthews | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): P M Black, V M Evans, L S Gibbard, Y V Jardine, S E Keeton, H Lawson, P Lloyd, P N May, D Phillips a/ac R C Stewart

**15. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd S J Rice gysylltiad personol â Chofnod 23 "Adolygiad o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu" a Chofnod 24 "Cynnig i Gyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol – Canol y Ddinas".

2) Datganodd y Cynghorwyr R D Lewis a F D O'Brien gysylltiad personol â Chofnod 26 "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cynllun Dirprwyo" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

**16. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mai 2023.
2) Cyfarfod blynyddol y cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023.
3) Cyfarfod seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2023.

**17. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

**18. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Cydymdeimladau**

**i) Cyn-Arglwydd Faeres, Ann James - gwraig y cyn-Henadur Anrhydeddus, cyn-Arglwydd Faer a chyn-Gynghorydd, Dennis H James**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-Arglwydd Faeres, Ann James. Roedd Ann yn wraig i'r Cyn-Henadur Anrhydeddus, y Cyn-Arglwydd Faer, a'r Cyn-gynghorydd, Dennis H James. Ann oedd yr Arglwydd Faeres yn 2012-2013.

**ii) Billy Evans, gŵr y Cynghorydd Mandy Evans**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Bill Evans, gŵr y Cynghorydd Mandy Evans.

**iii) Morgan Ridler – Sefydliad Elusennol *Morgan's Army***

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Morgan Ridler. Roedd gan Morgan ganser, a sefydlodd ei rieni, Natalie a Matthew, Sefydliad Elusennol *Morgan's Army* i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mathau niferus o ganserau plentyndod ac i rannu eu taith gan obeithio y byddai'n helpu llawer o bobl eraill i deimlo'n llai unig. Bu farw Morgan ym mis Mehefin 2023 a'r sefydliad elusennol yw ei etifeddiaeth o gariad. Gellir rhoi rhodd drwy www.morgansarmy.co.uk

**iv) Naemat Lawa Esmael a Muhammad Esmael, West Cross**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Naemat Lawa Esmael a Muhammad Esmael. Bu farw Naemat a'i fab yn dilyn tân mewn tŷ yn West Cross.

Safodd pawb a oedd yn bresennol fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

**b) Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin 2023**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol ddinasyddion Abertawe a dderbyniodd wobrau yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin.

**Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE)**

i) Yr Athro Medwin Hughes DL. Is-Ganghellor, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Gwasanaethau i Addysg ac i'r Gymraeg.

**Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Elizabeth Anne Rix Prif Nyrs, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgolion Portsmouth. Gwasanaethau i Arweinyddiaeth Nyrsio. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg).

ii) Non Rhiannydd Stanford. Gwasanaethau i Dreiathlon yng Nghymru. (Leeds, gorllewin Swydd Efrog).

**Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) John Leslie Stuart Griffiths. Hyfforddwr, Clwb Athletau Harriers Abertawe. Gwasanaethau i Athletau yng Nghymru. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg)

**c) Phil Sharman - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Phil Sharman wedi ymddiswyddo yn ddiweddar fel Aelod Cyfetholedig Statudol Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dechreuodd Phil y rôl ym mis Mai 2022. Ar ran yr awdurdod, diolchodd i Phil am ei amser a'i ymrwymiad dros y 14 mis diwethaf.

**ch) Martin Nicholls – Prif Weithredwr**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y cyngor yn ymwybodol bod Martin Nicholls, y Prif Weithredwr wedi bod yn derbyn triniaeth ar gyfer math o lewcemia a'i fod yn ymateb yn dda. O ganlyniad, roedd Martin wedi cofrestru ar gyfer digwyddiad *Pretty Muddy* 5k elusennol ym Mharc Singleton ar 29 Gorffennaf 2023 i godi arian ar gyfer Ymchwil Canser. Byddai unrhyw nawdd ar gyfer yr achos teilwng hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

**d) Coleg Gŵyr Abertawe - Gwobrau Myfyrwyr 2023**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod gan Gyngor Abertawe berthynas gref gyda Choleg Gŵyr Abertawe. Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Coleg i ddarparu hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys prentisiaethau a'r rhaglen Datblygu Rheoli fel rhan o'n Strategaeth Gweithlu. Roedd hi'n falch iawn o ddatgan bod Cyngor Abertawe wedi ennill gwobr Partner Cyflogwr y Flwyddyn Coleg Gŵyr Abertawe.

## 19. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Sioe Awyr Cymru 2023 - Abertawe**

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor fod rhai o'r peilotiaid a'r arddangosfa hedfan orau'r byd wedi defnyddio amffitheatr naturiol Bae Abertawe, dros y penwythnos diwethaf, i ddangos eu doniau, gydag acrobateg awyr anhygoel. O jetiau i hofrenyddion i'r *Red Arrows* anhygoel, yn sicr, roedd yn benwythnos i'w gofio. Croesawyd dros 180,000 o ymwelwyr i'r Sioe Awyr a disgwylir i'r hwb i'r economi leol fod yn filiynau o bunnoedd. Diolchodd i'r Cynghorydd Robert Francis-Davies a'r Tîm Digwyddiadau Arbennig a phawb oedd yn rhan o drefnu'r Sioe Awyr.

Llongyfarchodd Gyngor Casnewydd hefyd am gynnal sioe Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog wych yn ddiweddar. Mae Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn ddigwyddiad sy'n talu teyrnged i'n milwyr o'r presennol a'r gorffennol. Bydd Cyngor Abertawe yn cynnal y diwrnod fel rhan o Sioe Awyr Abertawe y flwyddyn nesaf ar 6 a 7 Gorffennaf 2024.

**b) Penderyn**

Llongyfarchodd Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor Penderyn ar agor eu cyfleuster yn Abertawe ar 13 Gorffennaf 2023. Dyma ddechrau ailddatblygu coridor yr afon a bydd yn atyniad gwych i dwristiaid yn ogystal â bod yn gyfleuster cynhyrchu mawr sy'n cynhyrchu dros filiwn o boteli o wisgi Cymreig y flwyddyn - a bydd llawer ohono ar gyfer allforio byd-eang.

**c) Ysgol Llandeilo Ferwallt**

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor ei fod yn edrych ymlaen at agor yr Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt newydd yn dilyn sawl blwyddyn o adnewyddu ac ailadeiladu. Bydd y buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd yn darparu cyfleusterau modern gwych i ddisgyblion yr ysgol. Dyma enghraifft arall o'n hymrwymiad i ddarparu'r ysgolion a'r cyfleusterau gorau a mwyaf modern i'n plant.

**ch) Gwobrau MJ 2023**

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y cyd y Cyngor ei bod yn anrhydedd i Gyngor Abertawe gael ei gydnabod fel un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yn y DU. Dyma'r eildro mewn dwy flynedd. Er na enillodd y cyngor wobr "Awdurdod Lleol y Flwyddyn," roeddem yn falch ein bod wedi dod yn un o'r rhai nesaf at y gorau a chawsom ein cydnabod drwy ymdrechion anhygoel ein staff. Roedd yn obeithiol y byddai'r cyngor yn llwyddiannus y flwyddyn nesaf.

Roedd y cyngor hefyd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y wobr "Tîm Gwasanaethau'r Cyngor Gorau" ar gyfer y Tîm Adeiladu Mwy o Gartrefi. Mae hwn yn gyflawniad gwych a llongyfarchodd pawb a gymerodd ran.

## 20. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Na chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 21. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio 2022/23.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-2023.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-2023.

## 22. Adolygu'r Polisi ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar adolygu'r polisi ar drwyddedu sefydliadau rhyw ac i gytuno ar y Polisi diwygiedig ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a chyhoeddi'r polisi ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw, a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad ac y bydd yn dod i rym ar 26 Gorffennaf 2023.

2) Cadw'r “ardaloedd perthnasol” cyfredol at ddibenion penderfynu ar geisiadau am sefydliadau rhyw a'r “nifer priodol” o sefydliadau rhyw ar gyfer pob ardal.

## 23. Adolygiad o'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar adolygiad Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu'r Cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i'r polisi.

2) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig.

3) Mabwysiadu'r polisi diwygiedig fel yr atodir yn Atodiad A yr adroddiad ar gyfer 2023-2028.

## 24. Cynnig i Gyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol - Canol y Ddinas.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb i gyhoeddi'r Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer ardal canol y ddinas.

**Penderfynwyd** cyhoeddi'r Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer ardal canol y ddinas.

**Sylwer:** Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai Seminar Cynghorwyr yn cael ei darparu.

## 25. Cynllun Datblygu Lleol Newydd Abertawe - Cytundeb Cyflawni a'r Camau Nesaf.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar Gytundeb Cyflawni drafft ac Adroddiad Adolygu drafft CDLl Newydd Abertawe a gofynnodd am gymeradwyaeth i gyflwyno'r dogfennau terfynol i Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi amserlen yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu drafft CDLl Abertawe a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, a chymeradwyo'r Adroddiad Adolygu terfynol a atodwyd yn Atodiad B yr adroddiad, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

2) Nodi amserlen yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni drafft CDLl Newydd Abertawe a atodwyd yn Atodiad C yr adroddiad, a chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni terfynol a atodwyd yn Atodiad Ch yr adroddiad i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

3) Bod y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, neu swyddog priodol a ddirprwyir, yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau argraffyddol, gramadegol, cyflwyniadol neu ffeithiol i Adroddiad Adolygu'r CDLl a Chytundeb Cyflawni CDLl Newydd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4) Bod y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, neu swyddog priodol a ddirprwyir, yn cael ei awdurdodi i gynnal ymarfer Galw am Safleoedd Ymgeisiol a pharatoi'r dogfennau cefndir ategol angenrheidiol, gan gynnwys methodolegau asesu, sy'n ymwneud â'r cam hwn.

5) Bod y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, neu swyddog priodol a ddirprwyir, yn cael ei awdurdodi i ymgymryd â'r camau nesaf gofynnol wrth baratoi'r CDLl Newydd, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ar Farn Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald a oedd data cenedlaethol yn cael ei ystyried fel rhan o'r Galw am Safleoedd Ymgeisiol, yn benodol y data sy'n ymwneud â niferoedd tai, gan ei bod yn ymddangos bod Abertawe eisoes wedi eu bodloni.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Sylwer:** Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai Seminar Cynghorwyr yn cael ei darparu.

**26. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn hysbysu'r cyngor o ddiwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Diwygio'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys:

*"b) Rhoddir awdurdod dirprwyedig hefyd i Swyddogion Cyfrifol ar gyfer trafodiadau gwaredu a phrydlesu lle nad yw'r Rheolau Trafodiadau Tir yn berthnasol".*

2) Cymeradwyo unrhyw rifo canlyniadol oherwydd y diwygiad hwn.

**27. Aelodaeth Pwyllgorau.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd M Baker.

**28. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd un ar ddeg (11) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 11**

i) Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald am eglurder ynghylch brawddeg olaf yr ymateb ysgrifenedig yn benodol "... ac er mwyn galluogi adfer ansawdd y dirwedd arbennig yn llawn yn dilyn datgomisiynu unrhyw ddatblygiad cynhyrchu ynni gwynt".

Dywedodd y gallai defnyddio concrit yn yr ardaloedd mawn hyn niweidio ansawdd y dirwedd arbennig yn barhaol, felly sut y byddai hyn yn cael ei gywiro?

ii) Dywedodd y Cynghorydd B J Rowlands nad oedd y mawn sy'n cael ei dynnu o Fynydd y Gwair wedi ei warchod. Beth fydd yr adran gynllunio yn ei wneud i warchod y tir yn y dyfodol a beth sydd wedi'i ddysgu o'r methiant hwnnw?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd pum (5) 'Cwestiwn Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

## 29. Hysbysiad o Gynnig - Anifeiliaid Byw fel Gwobrau.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd C A Holley a'i eilio gan y Cynghorydd J D McGettrick.

*"Mae'r cyngor hwn:*

- *Yn pryderu am nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd i'r RSPCA bob blwyddyn, ynghylch anifeiliaid anwes sy'n cael eu rhoi fel gwobrau drwy ffeiriau, cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill yng Nghymru.*
- Y*n pryderu am les yr anifeiliaid hynny sy'n cael eu rhoi fel gwobrau.*
- *Yn cydnabod y gall llawer o achosion o anifeiliaid anwes sy'n cael eu rhoi fel gwobrau fynd heb eu hadrodd bob blwyddyn yng Nghymru.*
- *Ar hyn o bryd yn gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir Cyngor Abertawe ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i wneud y gweithgaredd hwn yn anghyfreithlon.*

*Mae'r cyngor yn cytuno i:*

- *Ailddatgan ei waharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir Cyngor Abertawe, i benderfynu hysbysu'r RSPCA o'i bolisi, ac i roi cyhoeddusrwydd gwell i'r gwaharddiad hwn ar ei wefan gyda dull adrodd clir i'r cyhoedd; ac*

- *Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, gan annog gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

## 30. Hysbysiad o Gynnig - Parti'r Cyfnod Clo ac Anrhydedd

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd D H Hopkins a'i eilio gan y Cynghorydd A S Lewis.

*"Mae'r cyngor hwn yn nodi, gyda phryder mawr a ffieidd-dod, fideo a gafodd ei ryddhau'n ddiweddar yn dangos aelodau staff y Ceidwadwyr, a oedd yn gyflogedig gan Lywodraeth y Ceidwadwyr yn ystod mis Rhagfyr 2020, yn torri rheolau Covid-19 yn drahaus trwy gynnal partïon, peidio â chadw pellter cymdeithasol, cynnal digwyddiadau cymdeithasol, yfed alcohol a diystyru rheolaethau a thorri cyfreithiau a oedd ar waith ar y pryd.*

*Mae'r cyngor hwn yn condemnio'n llwyr yr ymddygiad a'r gweithredoedd a welir yn y fideo, a fydd yn hynod sarhaus ac yn niweidiol i lawer o bobl yn Abertawe a wnaeth y peth iawn ac a ufuddhaodd i'r rheolau Covid-19 a oedd ar waith ar y pryd.*

*Roedd ufuddhau i'r rheolau a gwneud y peth iawn yn golygu, na allai pobl yn lleol ac yn genedlaethol weld perthnasau oedd yn ddifrifol wael, ymweld â pherthnasau mewn ysbyty na chartrefi gofal am fisoedd, ac na allent ddod ynghyd â ffrindiau neu deulu ar gyfer dathliadau pen-blwydd neu adeg y Nadolig.*

*Mae'r cyngor hwn bellach yn condemnio'r rhestr anrhydeddau a gyflwynwyd gan y cyn-Brif Weinidog cywilyddus, Boris Johnson, ac a gymeradwywyd gan y Prif Weinidog presennol, Rushi Sunak, a roddodd anrhydeddau i o leiaf dau unigolyn a welwyd yn torri'r gyfraith yn y fideo.*

*Mae'r cyngor hwn yn galw ar yr heddlu i ymchwilio i'r fideo ac erlyn yr unigolion dan sylw lle profir bod achosion o dorri'r rheolau.*

*Mae'r cyngor hwn hefyd yn datgan y dylid dileu anrhydedd unrhyw un a anrhydeddwyd gan y cyn-Brif Weinidog cywilyddus, Boris Johnson, os ydynt wedi torri rheolau Covid-19."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.44 pm

**Cadeirydd**